# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 4 o Ragfyr 2025 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Goffa Chwilog, a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. **Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.**
**Yn bresennol** y Cynghorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Rhys Tudur, Dewi Thomas, Aled Evans, Aled Davies, Gareth Davies, Miriam Williams, Sian Angharad Parry, Euros Jones, Angharad Llwyd-Jones a'r Clerc.

   **Ymddiheuriadau** – Cynghorydd Delyth Parry, Tegid Jones, Dylan Thomas, ac Angela Williams.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 6 o Dachwedd 2025.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Tachwedd 2025.**

4. **Datgan buddiant personol- neb.**

5. **Sedd wag yn Ward Llanystumdwy – y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd a bydd y dyddiad cau ar 23.01.2026. Bydd y rhybudd wedi cael ei roi ar y wefan ac ar yr hysbysfwrdd yn Llanystumdwy.**

6. **Rheilffordd Arfordir Cambrian** – derbyniwyd gwybodaeth fod y trenau hwyr am barhau drwy'r gaeaf, sef fod yr un diwethaf yn mynd o Bwllheli am 20:26 yr hwyr, a'r un o Fachynlleth am 21:47. **Annog pawb ei bod yn bwysig ei defnyddio neu bydd y gwasanaeth yn dod i ben.**

7. **Un Llais Cymru – cyfarfod blynyddol 21.01.2026 yn rhithiol rhwng 18:00 – 20:00.**

Mae angen un cynghorydd i gynrychioli ei cyngor yn y cyfarfod, ac mae gofyn am fanylion eilydd fydd ond yn gallu mynychu'r cyfarfod os nad yw'r cynghorydd a enwebwyd yn gallu gwneud hynny. **Dim ond un cynghorydd o bob cyngor all fynychu'r cyfarfod.**

a) Mae angen i'r cyngor ystyried y cynigion a drafodir a rhoi mandad i'r cynghorydd a enwebwyd i bleidleisio ar y cynigion.
b) Bydd angen i'r Clerc e-bostio Tracy Gilmartin erbyn y 18.12.2025 er mwyn rhoi enwau, cyfeiriadau ebost a rhifau ffôn cynrychiolydd y cyngor yn ogystal â'r eilydd.

Bydd linc i'r cyfarfod rhithiol, copi o'r Agenda ac unrhyw bapurau perthnasol ar gyfer y cyfarfod yn cael ei anfon at y cynrychiolydd a enwebwyd.
Enwebwyd y Cynghorydd Dylan Thomas ac Anwen Jones fel eilydd.

8. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

9. **Cais cynllunio sydd angen penderfyniad**

a) **Moneifion, 15 Ty'n Rhos, Chwilog C25/0843/41/DT** - Estyniad unllawr blaen arfaethedig ar gyfer creu estyniad i'r gegin. **Cefnogi**.

b) **Tir Ger Maes Llwyd, Llanystumdwy C25/0864/41/RA** - Rhyddhau amodau 12 (adroddiad archeolegol) a 14 (enw ystad) o ganiatad cynllunio. **Derbyn**.

**Materion yn y gymuned**.
10. **Llanystumdwy**

11. **Rhoslan/Ynys**

12. **Chwilog**
**Pont y Felin / Glan y Wern** – mae Tím Tacluso Ardal Ni wedi clirio'r tyfiant ar y bont.

13. **Pencaenewydd/Sardis**

14. **Llangybi**.

15. **Materion Ariannol**

Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.11.2025. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

16. **Cynllun Partneriaeth – Toiledau Cyhoeddus Llanystumdwy**

Derbyniwyd gwybodaeth gan Amanda Murray, Rheolwr Asedau Bwrdreistrefol, yn dweud fod y cynllun yma wedi gallu sicrhau bod 60 o doiledau cyhoeddus ar agor yng Ngwynedd. Gan fod y cynllun wedi bod yn gadarnhaol, ac er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a threfniadau effeithlon, maent wedi edrych ar swm y cyfraniadau sydd wedi bod yn sefydlog ers ei cyflwyno nol yn 2017.

Mae'r bwlch chwyddiant ar y gost o redeg toiledau cyhoeddus wedi codi yn flynyddol ers cyflwyno y cynllun ac erbyn hyn yn dilyn diweddariad chwyddiant ar gyfer Cyllideb 2026-2027, mae'r ffigyrau isod ar gyfer cyfraniadau 2026-2027:

- Agor trwy'r flwyddyn codi o £4,000 i £5,440
- **Cau tymhorol codi o £2,000 i £2,720 – sef hanner y cyfraniad agor trwy'r flwyddyn**. Derbyn a pharhau i'w agor am hanner blwyddyn.

17. **Cyfarfod Cyllid/Busnes** – wedi cael ei gynnal o flaen y prif gyfarfod ar 06.11.2025. Cytuno i dderbyn yr penderfyniad o godi'r praesept o £20,500.00 i £21,000.00 (sef cynnydd o tua 2.5% oherwydd chwyddiant) am y flwyddyn 01.04.2026 – 31.03.2027 ymlaen.

18. **Elusen William Ellis** – Ni dderbyniwyd cais eleni gan aelod o'r cyhoedd.

19. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** – gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor, wedi cael ei roi ar y wefan, Y Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2026.

20. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw** | Rheswm | Pris £ | TAW £ | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Mart Design Print (5056) | Hysbysfwrdd Beirdd Mynwent Chwilog – ail hanner y bil.<br>Bydd Gronfa Gwynedd Ni yn ein ad-dalu, a bydd angen i'r Clerc hawlio'r TAW yn nol. | **1229.50** | **245.50** | **1475.40** | **1475.40** |

21. Cyflog mis Tachwedd 2025 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Tachwedd 2025<br>35 awr y mis x £18.85 = **£659.75** a | £659.75<br>Llai treth- £132.00 =<br>**£527.75** | **527.75** | **527.75** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Tachwedd 2025<br>£660.00 x 20% = £132.00 | **£132.00** | **132.00** | **132.00** |
| Costau swyddfa Clerc Tachwedd 2025 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

22. **Materion hwyr**

23. **Cwmni Lightsource** – derbyniwyd £5,5413.30 eleni, sef £237.63 yn fwy na llynedd.

24. **Cyffordd Tregarn, Pencaenewydd** - Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig wedi gofyn am gadarnhad pa un o'r ddau opsiwn isod fyddai orau, a dewiswyd yr opsiwn cyntaf oherwydd bydd angen i gerbydau fedru parcio yno pan fydd digwyddiadau yn cael ei cynnal yn y Capel:

i) Dim ond gwaharddau tymhorol neu rhai dros dro sydd yn cynnwys arwyddion ac un linell felen.

ii) Nid yw gwaharddau parcio llinellau melyn dwbl angen arwydd gan ei bod yn weithredol drwy'r dydd a nos.

24. **Hysbysfwrdd Beirdd Mynwent Chwilog** – derbyniwyd drafft o'r cynllun gan Cwmni M.art, Pwllheli, a penderfyniwyd derbyn un ohonynt. Gofynwyd i'r Clerc drefnu i ychwanegu cód QR arno hefyd, a chysylltu hefo cwmni Delwedd fel bod y manylion yn dangos mewn tudalen newydd ar wefan y Cyngor. Y Clerc eisioes wedi diolch i Mrs Margaret Hughes a Mrs Meinir Pierce Jones am ei cymorth ac am gyfieithu'r wybodaeth. Bydd yr hysbysfwrdd wedyn yn cael ei archebu.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau **08.01.2026** yn Festri Pencaenewydd a drwy Zoom.